

Nodyn

Testunau Cymraeg a Saesneg o is-ddeddfwriaeth y Cynulliad

1. Adran 47(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yw'r ddarpariaeth gyffredinol. Yn ôl yr adran:

"The Assembly shall in the conduct of its business give effect, so far as is both appropriate in circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on the basis of equality."

2. Mae adrannau 66(4) a 122 yn ategu'r ddarpariaeth honno. Mae adran 66(4) yn darparu bod rhaid i'r rheolau sefydlog:

"include provision for securing that a draft of [a] statutory instrument containing any Assembly general subordinate legislation may be approved by the Assembly only if the draft is in both English and Welsh unless in the particular circumstances it is inappropriate or not reasonably practicable for the draft to be in both languages."

3. Mae adran 122 yn darparu:

"(1) the English and Welsh texts of any subordinate legislation made by the Assembly which is in both English and Welsh when made shall be treated for all purposes as being of equal standing.

(2) The Assembly may by order provide in respect of any Welsh word or phrase that, where it appears in the Welsh text of any subordinate legislation made by the Assembly, it is to be taken as having the same meaning as the English word or phrase specified in relation to it in the order.

(3) An order under subsection (2) may, in respect of any Welsh word or phrase, make different provisions for different purposes.

(4) Subordinate legislation made by the Assembly shall, subject to any provision to the contrary contained in it, be construed in accordance with any order under subsection (2)."

4. Diffinnir "Assembly general subordinate legislation" gan adran 58(6).
5. Mae rheolau sefydlog yn mynd ymhellach nag adran 66(4) ac yn darparu bod holl is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sydd i'w gwneud gan y Cynulliad i'w pharatoi yn Gymraeg a Saesneg oni bai ei bod yn amhriodol neu'n ymarferol afresymol o dan amodau penodol (heblaw am is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau a bennir yn Rhan 2 o reol sefydlog 22). Ond bydd adran 122(1) yn gymwys i destunau unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad sydd yn Gymraeg a Saesneg ac, o ran deddfwriaeth o'r fath, caiff yr ieithoedd eu trin i bob pwrpas ar sail gyfartal.
6. Mae darpariaethau cyfun adrannau 47(1) ac adran 122(1) yn golygu y bydd y Gymraeg a'r Saesneg, o fewn offeryn, i'w trin ar sail gyfartal (cyhyd â'i bod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol) a chaiff y testunau, pan fyddant yn cael eu gwneud, eu trin i bob pwrpas ar sail gyfartal bob amser.
7. Felly o ran is-ddeddfwriaeth a baratoir yn y ddwy iaith, ymddengys fod yr ystyriaethau canlynol yn berthnasol
8. Sut y gweithredir ar yr egwyddor bod yr ieithoedd yn cael eu trin ar sail gyfartal?
9. Ynghlwm â'r ystyriaeth hon ceir gofyniad bod yr offeryn yn cael ei ystyried fel cyfanwaith a bod angen ystyried y testunau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Yn benodol, mae'r agwedd hon yn berthnasol i'r darn yn rheol sefydlog 11.5(vi) sy'n gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i ddarn o is-ddeddfwriaeth (anghysonderau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg).
10. O safbwynt yr ymarferwyr (a'r defnyddwyr eraill), mae'r ddadl wedi'i chodi mai rhoi'r testunau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn offeryn yw'r ffordd fwyaf addas ymlaen. Gellir gwneud hyn naill ai drwy ddiwyg tudalennau cyfarwyneb neu ddiwyg dwy golofn ar dudalen.
11. Ond gellid gosod testunau Cymraeg a Saesneg ar wahân mewn offeryn (gyda'r Gymraeg neu'r Saesneg yn gyntaf). Un amrywiaeth ar hyn yw lle bo testun y naill iaith wyneb i wared o gymharu â'r destun arall (sy'n osgoi dadlau ynglŷn â pha iaith sy'n dod "gyntaf"). Yr anhawster o ran is-ddeddfwriaeth lle bod y testunau Cymraeg a Saesneg wedi'u gosod ar wahân, yn ôl y ddadl, yw ei bod yn ei gwneud yn anos i ddadansoddi effaith deddfwriaeth o'r fath (gan fod rhaid ystyried offeryn fel cyfanwaith).

Materion arddull ieithyddol

12. Mae'r pwyllgor wedi mynegi sylwadau ynglŷn â:
 - dymuno mynegiant eglur mewn testunau is-ddeddfwriaeth e.e. materion '*plain English*' a 'Chymraeg Clir', a
 - diwyg is-ddeddfwriaeth, a darparu gwybodaeth ategol ynddi, e.e. maint y print ac esboniad priodol o effaith offerynnau mewn nodiadau esboniadol.
1. Mae'r pryderon hyn yn briodol gan eu bod yn cyfeirio at ba mor hawdd y gall defnyddwyr ddeall offeryn. Yn gysylltiedig â'r pwnc hwn mae rheol sefydlog 11.5(iv) yn darparu bod

modd i'r Pwyllgor Deddfu dynnu sylw arbennig y Cynulliad at is-ddeddfwriaeth os bydd angen esboniad pellach, am unrhyw reswm, o arddull is-ddeddfwriaeth neu'i hystyr.

2. Ond er ei bod yn amlwg na ddylai deddfwriaeth fod yn ddiangen o gymhleth, efallai bydd angen i ddeddfwriaeth o'r fath fod yn gymhleth o ganlyniad i natur y pwnc.
3. Fel man cychwyn i ystyried yr agwedd hon, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y darnau hynny o Ddeddf Incwm a Threthi Corfforaethol 1998, ar y cyd â'r fersiynau drafftio amgen a awgrymwyd, a cylchredwyd eisoes gan Mr John Marek, AC.

Nodyn

Testunau Cymraeg a Saesneg o is-ddeddfwriaeth y Cynulliad

1. Adran 47(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yw'r ddarpariaeth gyffredinol. Yn ôl yr adran:

"The Assembly shall in the conduct of its business give effect, so far as is both appropriate in circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on the basis of equality."

2. Mae adrannau 66(4) a 122 yn ategu'r ddarpariaeth honno. Mae adran 66(4) yn darparu bod rhaid i'r rheolau sefydlog:

"include provision for securing that a draft of [a] statutory instrument containing any Assembly general subordinate legislation may be approved by the Assembly only if the draft is in both English and Welsh unless in the particular circumstances it is inappropriate or not reasonably practicable for the draft to be in both languages."

3. Mae adran 122 yn darparu:

"(1) the English and Welsh texts of any subordinate legislation made by the Assembly which is in both English and Welsh when made shall be treated for all purposes as being of equal standing.

(2) The Assembly may by order provide in respect of any Welsh word or phrase that, where it appears in the Welsh text of any subordinate legislation made by the Assembly, it is to be taken as having the same meaning as the English word or phrase specified in relation to it in the order.

(3) An order under subsection (2) may, in respect of any Welsh word or phrase, make different provisions for different purposes.

(4) Subordinate legislation made by the Assembly shall, subject to any provision to the contrary contained in it, be construed in accordance with any order under subsection (2)."

4. Diffinnir "Assembly general subordinate legislation" gan adran 58(6).
5. Mae rheolau sefydlog yn mynd ymhellach nag adran 66(4) ac yn darparu bod holl is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sydd i'w gwneud gan y Cynulliad i'w pharatoi yn Gymraeg a Saesneg oni bai ei bod yn amhriodol neu'n ymarferol afresymol o dan amodau penodol (heblaw am is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau a bennir yn Rhan 2 o reol sefydlog 22). Ond bydd adran 122(1) yn gymwys i destunau unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad sydd yn Gymraeg a Saesneg ac, o ran deddfwriaeth o'r fath, caiff yr ieithoedd eu trin i bob pwrpas ar sail gyfartal.
6. Mae darpariaethau cyfun adrannau 47(1) ac adran 122(1) yn golygu y bydd y Gymraeg a'r Saesneg, o fewn offeryn, i'w trin ar sail gyfartal (cyhyd â'i bod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol) a chaiff y testunau, pan fyddant yn cael eu gwneud, eu trin i bob pwrpas ar sail gyfartal bob amser.
7. Felly o ran is-ddeddfwriaeth a baratoir yn y ddwy iaith, ymddengys fod yr ystyriaethau canlynol yn berthnasol
8. Sut y gweithredir ar yr egwyddor bod yr ieithoedd yn cael eu trin ar sail gyfartal?
9. Ynghlwm â'r ystyriaeth hon ceir gofyniad bod yr offeryn yn cael ei ystyried fel cyfanwaith a bod angen ystyried y testunau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Yn benodol, mae'r agwedd hon yn berthnasol i'r darn yn rheol sefydlog 11.5(vi) sy'n gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i ddarn o is-ddeddfwriaeth (anghysonderau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg).
10. O safbwynt yr ymarferwyr (a'r defnyddwyr eraill), mae'r ddadl wedi'i chodi mai rhoi'r testunau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn offeryn yw'r ffordd fwyaf addas ymlaen. Gellir gwneud hyn naill ai drwy ddiwyg tudalennau cyfarwyneb neu ddiwyg dwy golofn ar dudalen.
11. Ond gellid gosod testunau Cymraeg a Saesneg ar wahân mewn offeryn (gyda'r Gymraeg neu'r Saesneg yn gyntaf). Un amrywiaeth ar hyn yw lle bo testun y naill iaith wyneb i wared o gymharu â'r destun arall (sy'n osgoi dadlau ynglŷn â pha iaith sy'n dod "gyntaf"). Yr anhawster o ran is-ddeddfwriaeth lle bod y testunau Cymraeg a Saesneg wedi'u gosod ar wahân, yn ôl y ddadl, yw ei bod yn ei gwneud yn anos i ddadansoddi effaith deddfwriaeth o'r fath (gan fod rhaid ystyried offeryn fel cyfanwaith).

Materion arddull ieithyddol

12. Mae'r pwyllgor wedi mynegi sylwadau ynglŷn â:

- dymuno mynegiant eglur mewn testunau is-ddeddfwriaeth e.e. materion '*plain English*' a 'Chymraeg Clir', a
 - diwyg is-ddeddfwriaeth, a darparu gwybodaeth ategol ynddi, e.e. maint y print ac esboniad priodol o effaith offerynnau mewn nodiadau esboniadol.
1. Mae'r pryderon hyn yn briodol gan eu bod yn cyfeirio at ba mor hawdd y gall defnyddwyr ddeall offeryn. Yn gysylltiedig â'r pwnc hwn mae rheol sefydlog 11.5(iv) yn darparu bod modd i'r Pwyllgor Deddfu dynnu sylw arbennig y Cynulliad at is-ddeddfwriaeth os bydd angen esboniad pellach, am unrhyw reswm, o arddull is-ddeddfwriaeth neu'i hystyr.
 2. Ond er ei bod yn amlwg na ddylai deddfwriaeth fod yn ddiangen o gymhleth, efallai bydd angen i ddeddfwriaeth o'r fath fod yn gymhleth o ganlyniad i natur y pwnc.
 3. Fel man cychwyn i ystyried yr agwedd hon, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y darnau hynny o Ddeddf Incwm a Threthi Corfforaethol 1998, ar y cyd â'r fersiynau drafftio amgen a awgrymwyd, a cylchredwyd eisoes gan Mr John Marek, AC.